**Rhif: WG34980**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – Crynodeb o'r ymatebion

# Nodyn Cyngor Technegol 1

**Datgymhwyso dros dro baragraff 6.2**

Gorffennaf 2018

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-78937-644-9

## Crynodeb o'r ymatebion

### 1. Cyflwyniad

1.1 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad am gyfnod o chwe wythnos rhwng 10 Mai a 21 Mehefin 2018 ar ddatgymhwyso dros dro baragraff 6.2 o Nodyn Cyngor Technegol 1, Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (TAN 1).

1.2 O dan bolisi cynllunio Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol gynnal cyflenwad pum mlynedd o dir y byddai modd ei ddarparu ar gyfer tai. Mae'r gofyniad hwn yn seiliedig ar fodloni'r anghenion o ran tai a nodir mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (*Polisi Cynllunio Cymru*, paragraff 9.2.3). Eir ati yn TAN 1 i nodi sut i gyfrifo'r cyflenwad tir ar gyfer tai ac mae'n cynnig dull rhesymegol a chyson o wneud hynny sydd i'w ddefnyddio ledled Cymru.

1.3 Wrth fynd ati i fonitro'r cyflenwad o dir ar gyfer tai, mae wedi dod i'r amlwg bod prinder tir y byddai modd ei ddarparu ac nad oedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau cynllunio lleol yn gallu dangos ar 1 Ebrill 2017 fod ganddynt gyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tail. Yn eu plith yr oedd yr awdurdodau hynny sydd wedi mabwysiadu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) yn ddiweddar. Mae'r sefyllfa hon wedi arwain at fwy o geisiadau cynllunio am dai ar safleoedd nad ydynt wedi cael eu dyrannu mewn CDLlau.

1.4 Roedd yr ymgynghoriad ar y cynnig i ddatgymhwyso paragraff 6.2 o TAN 1 yn gysylltiedig ag adolygiad eang ei gwmpas sydd ar fin cael ei gynnal o gyflenwi tai drwy'r system gynllunio. Bwriedir i'r adolygiad hwnnw ddechrau yn ystod yr haf. Mae'r adolygiad hwn yn cael ei gynnal mewn ymateb i'r sefyllfa bresennol o ran y cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai, ac mewn ymateb hefyd i'r sefyllfa sy'n uniongyrchol gysylltiedig â hi, sef diwallu'r anghenion o ran tai a nodir mewn CDLlau. Y nod yw sicrhau bod y safleoedd mwyaf addas ar gyfer tai yn cael eu cynnig fel rhan o broses systematig a thrwyadl o greu CDLlau.

1.5 Cyn mynd ati i gynnal yr adolygiad ehangach o gyflenwi tai, aeth Llywodraeth Cymru ati i ymgynghori ar ddatgymhwyso paragraff 6.2 o TAN 1 er mwyn cael gwared ar y pwyslais ar roi "cryn" bwys ar y ffaith nad oes cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai a'i wneud yn ystyriaeth o bwys wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer tai. Y nod oedd lleddfu peth o'r pwysau uniongyrchol ar awdurdodau cynllunio wrth iddynt ymdrin â cheisiadau cynllunio 'tybiannol' ar gyfer tai.

### 2. Cyhoeddusrwydd

2.1 Cyhoeddwyd manylion llawn yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru ac roeddent i'w gweld yno tan i'r ymgynghoriad ddod i ben. Cafodd y Penaethiaid Cynllunio yn y 25 awdurdod cynllunio eu hysbysu drwy lythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig am yr ymgynghoriad ac am yr

adolygiad y bwriedir ei gynnal o gyflenwi tai drwy'r system gynllunio. Anfonwyd copi o lythyr Ysgrifennydd y Cabinet at y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi ac Arolygiaeth Gynllunio Cymru hefyd.

## 3. Yr ymatebion

3.1 Daeth cyfanswm o 486 o ymatebion i law. Y grŵp mwyaf o ddigon oedd unigolion yn ymateb yn bersonol (331), sef 68% o'r ymatebwyr. Daeth ymatebion o sylwedd i law oddi wrth y sector busnes (45 – oddi wrth ddatblygwyr tai ac ymgynghorwyr cynllunio yn bennaf), sef 9% o'r ymatebwyr. Daeth ymatebion i law hefyd oddi wrth 17 o awdurdodau cynllunio a 56 o gynghorwyr a oedd yn ymateb fel unigolion. Cafwyd ymateb hefyd oddi wrth y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru (RTPI Cymru).

## 4. Crynodeb o'r ymatebion fesul cwestiwn

4.1 Eir ati yn yr adran hon i roi crynodeb o'r ymatebion i'r ddau gwestiwn yn yr ymgynghoriad. Os na chafodd sylwadau eu priodoli'n uniongyrchol i gwestiwn, cysylltwyd y sylwadau hynny â'r cwestiwn mwyaf priodol. Ni roddodd rhai o'r ymatebwyr ymateb penodol i naill ai un o'r cwestiynau neu i'r ddau ohonynt, felly nid yw'r cyfanswm yn 486 bob amser.

***Cwestiwn 1: A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddatgymhwyso dros dro baragraff 6.2 o TAN 1 i dynnu'r cyfeiriad at roi pwysoliad "sylweddol" i'r diffyg cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai fel ystyriaeth o bwys wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer tai?***

| Ymatebwyr yn ôl math | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 3 | 0 | 42 |
| Awdurdod Cynllunio Lleol | 12 | 3 | 2 |
| Cynghorydd mewn Awdurdod Cynllunio Lleol | 54 | 1 | 1 |
| Un o Asiantaethau'r Llywodraeth / Cyrff Eraill yn y Sector Cyhoeddus | 19 | 0 | 0 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau Buddiant | 1 | 0 | 4 |
| Y Sector Gwirfoddol | 11 | 0 | 0 |
| Yn ymateb fel unigolyn | 287 | 2 | 41 |
| Eraill | 1 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm (%)** | **388 (80.0%)** | **6 (1.2%)** | **91 (18.8%)** |

4.2 Roedd mwyafrif mawr yn cytuno â'r cynnig i ddatgymhwyso paragraff 6.2 o TAN 1. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth mawr rhwng y mathau o ymatebwyr. Roedd 87% o'r rheini a ymatebodd yn unigol yn cytuno â'r cynnig, ynghyd â 96% o gynghorwyr yr awdurdodau lleol a 70% o'r awdurdodau cynllunio. Mewn cyferbyniad â hynny, roedd 93% o'r sector busnes yn erbyn y cynnig.

4.3 Dadl y sector busnes oedd bod TAN 1, ac yn enwedig paragraph 6.2, yn cynnig arweiniad angenrheidiol a phriodol i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau wrth iddynt fynd ati i benderfynu ar geisiadau cynllunio pan fo llai na chyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai. Dadleuai busnesau hefyd fod yr amod ym mharagraff 6.2 ynglŷn â chydymffurfio â'r cynllun datblygu a pholisïau cenedlaethol yn sicrhau mai dim ond pe bai datblygiadau mewn lleoliadau cynaliadwy y byddent yn cael eu caniatáu. Cyfeiriwyd at dystiolaeth yn ymwneud â cheisiadau cynllunio a phenderfyniadau ar apelau i gefnogi'r datganiad hwn.

4.4 Roedd y sector busnes yn pryderu hefyd am effaith bosibl y cynnig ar gyflenwi tai, gan gynnwys tai fforddiadwy. Dadleuwyd na fyddai nifer sylweddol o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu pe bai'r cynnig yn arwain at wrthod caniatâd cynllunio ar safleoedd sydd heb eu dyrannu mewn cynlluniau datblygu. Dadleuent hefyd fod y cynnig yn cael ei gyflwyno cyn pryd o gofio'r adolygiad sydd i'w gynnal o gyflenwi tai drwy'r system gynllunio.

4.5 Roedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau cynllunio yn croesawu'r cynnig i ddatgymhwyso paragraff 6.2 o TAN 1. Yn benodol, mynegwyd y farn y byddai'r cynnig yn caniatáu i bob mater cynllunio gael ei ystyried mewn ffordd fwy cytbwys er mwyn sicrhau mai dim ond yn y lleoliadau mwyaf priodol a chynaliadwy y byddai tai'n cael eu caniatáu. O ran yr awdurdodau cynllunio hynny a oedd yn erbyn y cynnig, mynegwyd pryder ganddynt am yr effaith andwyol y gallai ei chael ar y cyflenwad tai, yn enwedig o ystyried yr amserlen ar gyfer adolygu CDLlau.

4.6 Mynegodd llawer o'r rheini a ymatebodd fel unigolion bryder fod gormod o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu ar safleoedd nad oeddent wedi'u dyrannu ac a oedd mewn lleoliadau anghynaliadwy. Roddent o'r farn bod y cynnig i ddatgymhwyso paragraff 6.2 o TAN 1 yn ffordd i atal datblygiadau o'r fath. Roedd mwyafrif mawr ymhlith cynghorwyr awdurdodau cynllunio a chynghorau cymuned o'r un farn.

4.7 Roedd rhai yn y sector cyrff proffesiynol yn cydnabod bod angen y cynnig o wybod nad yw safleoedd sydd wedi'u dyrannu mewn CDLlau yn cael eu cyflenwi, a bod hynny'n arwain at sefyllfa lle nad yw awdurdodau lleol yn gallu cyflenwi'r cartrefi a gynlluniwyd na dangos bod ganddynt gyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai. Mater a godwyd hefyd oedd ffydd y cyhoedd yn y system sy'n cael ei harwain gan gynlluniau. Cyfeiriwyd at y ffaith fod y cyhoedd yn disgwyl i safleoedd a ddyrennir mewn CDLlau gael eu datblygu yn unol â'r cynigion ac i'r rheini sydd heb eu dyrannu beidio â chael eu datblygu fel rheol.

4.8 Cododd nifer o ymatebwyr o bob sector faterion ehangach hefyd, a bydd y materion hynny'n rhan o'r adolygiad o gyflenwi tai drwy'r system gynllunio, a fydd yn dechrau yn ystod yr haf gyda 'chais am dystiolaeth'.

***Cwestiwn 2: A ydych chi o'r farn y bydd datgymhwyso dros dro baragraff 6.2 o TAN 1 yn effeithiol wrth ryddhau'r pwysau ar awdurdodau cynllunio lleol pan fyddant yn ymdrin â cheisiadau cynllunio tybiannol ar gyfer tai?***

| Ymatebwyr yn ôl math | Ydw | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Nac ydw |
|---|---|---|---|
| Busnesau | 2 | 0 | 41 |
| Awdurdod Cynllunio Lleol | 14 | 0 | 3 |
| Cynghorydd mewn Awdurdod Cynllunio Lleol | 52 | 1 | 2 |
| Un o Asiantaethau'r Llywodraeth / Cyrff Eraill yn y Sector Cyhoeddus | 17 | 1 | 1 |
| Cyrff proffesiynol / Grwpiau Buddiant | 0 | 1 | 4 |
| Y Sector Gwirfoddol | 9 | 1 | 1 |
| Yn ymateb fel unigolyn | 280 | 0 | 41 |
| Eraill | 1 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm (%)** | **375 (79.3%)** | **4 (0.8%)** | **94 (19.9%)** |

4.9 Roedd mwyafrif mawr ymhlith yr ymatebwyr yn cytuno y byddai datgymhwyso paragraff 6.2 of TAN 1 yn helpu i ysgafnhau'r pwysau ar awdurdodau cynllunio wrth iddynt ymdrin â cheisiadau cynllunio am dai ar safleoedd nad ydynt wedi'u dyrannu mewn cynllun datblygu. Fodd bynnag, roedd y gwahaniaeth rhwng y sectorau a oedd yn amlwg yn yr ymatebion i Gwestiwn 1, hefyd yn amlwg yn achos Cwestiwn 2. Ymhlith y rheini a oedd yn cytuno yr oedd 87% o'r rheini a oedd yn ymateb fel unigolion, 82% o'r awdurdodau cynllunio a 94% o gynghorwyr mewn awdurdodau lleol. Mewn cyferbyniad â hynny, nid oedd 95% o'r sector busnes yn cytuno â'r cynnig.

4.10 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys awdurdodau cynllunio, o'r farn y byddai'n helpu i annog datblygwyr i beidio â chyflwyno ceisiadau cynllunio 'tybiannol' mewn lleoliadau llai cynaliadwy, gan ysgafnhau peth o'r pwysau ar awdurdodau cynllunio. Mynegwyd y farn hefyd y byddai'r cynnig yn awgrymu'n gryf wrth ddatblygwyr sy'n ystyried datblygu safleoedd heb eu dyrannu fod angen iddynt ddarparu tystiolaeth glir i ddangos bod angen y cartrefi ac i ddangos hefyd fod y lleoliad yn gynaliadwy.

4.11 Roedd y sector busnes yn dadlau nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod ceisiadau cynllunio am safleoedd sydd heb eu dyrannu mewn CDLlau yn dargyfeirio adnoddau oddi wrth unrhyw beth arall y dylai awdurdodau cynllunio fod yn ei wneud. Dadleuwyd hefyd mai darparu cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai drwy'r broses Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai yw'r unig ffordd o liniaru'r pwysau sy'n cael ei achosi gan geisiadau cynllunio nas dymunir. Mynnwyd hefyd y byddai

canlyniadau anfwriadol i’r cynnig, yn benodol, y byddai awdurdodau lleol sydd eisoes o dan bwysau ariannol difrifol yn colli’r incwm a gânt drwy ffioedd. Dadl arall gan y sector busnes oedd pe bai unrhyw geisiadau 'tybiannol' mewn lleoliadau anaddas, yna dylai fod modd gwrthod ceisiadau o'r fath yn gyflym ac yn hawdd ac na fyddai angen llawer o adnoddau i ymdrin â nhw, ond y byddai ffi gynllunio yn dal i gael ei thalu.

## 5. Ymateb Llywodraeth Cymru

5.1 Yr hyn a ddylai fod yn brif ystyriaeth wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio yw a ydynt yn cyd-fynd â'r cynllun datblygu a pholisïau cynllunio cenedlaethol. Wrth ddyrannu safleoedd tai mewn CDLlau, mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio sicrhau eu bod mewn lleoliadau cynaliadwy drwy ystyried materion megis y gallu i gyrraedd y gwaith, ysgolion, gofal iechyd, rhwydweithiau trafnidiaeth a chyfleusterau a gwasanaethau eraill. Oherwydd y sefyllfa bresennol o ran y cyflenwad o dir ar gyfer tai ar draws Cymru, mae rhai awdurdodau cynllunio yn cael ceisiadau 'tybiannol' am dai ar safleoedd sydd heb eu dyrannu. Mae hynny'n creu ansicrwydd i gymunedau ac mae'n andwyol i'r system a arweinir gan gynlluniau. Bernir y dylai awdurdodau cynllunio fod yn canolbwyntio ar gyflenwi safleoedd a ddyrannwyd mewn cynlluniau datblygu ac ar sicrhau bod CDLlau yn parhau'n gyfredol drwy fynd ati i'w monitro a'u hadolygu’n rheolaidd.

5.2 Cydnabyddir na fydd datgymhwyso paragraff 6.2 o TAN 1 yn atal ceisiadau cynllunio 'tybiannol' mewn lleoliadau anghynaliadwy; ond wedi dweud hynny, dylai olygu y byddant yn llai tebygol o gael caniatâd a dylai hynny arwain at lai ohonynt.

5.3 Cydnabyddir hefyd fod y materion sy'n gysylltiedig â chyflenwi tai yn ehangach na datgymhwyso paragraff 6.2. Bydd adolygiad ehangach o'r materion hynny yn dechrau yn ystod yr haf gyda 'chais am dystiolaeth'.

## 6. Y Camau Nesaf

6.1 Bydd datganiad yn cael ei gyhoeddi ynglŷn â phenderfyniad Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig i ddatgymhwyso paragraff 6.2 o TAN 1 tan ddiwedd yr adolygiad o gyflenwi tai drwy'r system gynllunio. Bydd y datganiad hwnnw'n egluro pryd y bydd yn dechrau a hefyd delerau'r datgymhwysiad.

## Atodiad – Rhestr o'r ymatebwyr

### Busnesau

| | |
|---|---|
| Cloud9estates ltd | Harvington Properties Ltd |
| Julian Dyer & Co | Barton Willmore |
| Owen Devenport Ltd | Sullivan Architectural |
| Ship Inn | Barratt David Wilson Homes |
| Historic House Hotels | Sullivan Land and Planning |
| Owen Davies Consulting Ltd | Welsh Planning Consultants Forum |
| Industry professional | Dwr Cymru Welsh Water |
| Roger Parry & Partners | Llanmoor Development Co. Ltd & Geraint John Planning Ltd |
| Wales & West Housing | LRM Planning on behalf of Newbridge Construction Ltd |
| FBC Manby Bowdler LLP | Boyer Planning |
| Pegasus Group on behalf of Syke Homes Flintshire Ltd | Bron Afon Community Housing |
| RPS Planning & Development | Talbot Green Development Ltd |
| Steve Williams, MD Barratt David Wilson South Wales. | R E Phillips & Partners |
| Kevin H Jones Chartered Town Planning Consultant Ltd | Tirion Group Ltd |
| Pegasus Group | PMG Ltd |
| Redrow Homes | KEW Planning on behalf of Sheila Ann Davies |
| Savills | Marvel Ltd (c/o WYG) |
| Turley | LRM Planning Ltd |
| Bloor Homes | |
| RPS Group | |

### Cynghorydd mewn Awdurdod Cynllunio Lleol

| |
|---|
| Anne McCaffre – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Mark Baker - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Goronwy Edwards – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Keith Eeles - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

Andrew Hinchliff - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mike Priestley- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Charlie McCoubrey - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Frank Bradfield - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Gareth Jones - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Brian Cossey - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Philip Capper - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Alan Hunter - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Nigel Smith - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Susan Shotter - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Chris Hughes - . Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Rob Gough- Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Austin Roberts – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Samantha Cotton - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Roy Saralis - Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Chris Cater - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Emma Leighton-Jones - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Bob Squire - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cheryl Carlisle - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Peter Lewis - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Wyn Jones – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

David Healey – Cyngor Sir y Fflint

Kevin Etheridge - Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Sean Bibby - Cyngor Sir y Fflint / Cyngor Tref Shotton

Carolyn Thomas - Cyngor Sir y Fflint

Gladys Healey - Cyngor Sir y Fflint

Rosetta Dolphin - Cyngor Sir y Fflint

Chris Dolphin - Cyngor Sir y Fflint

Mike Peers - Cyngor Sir y Fflint / Cyngor Tref Bwcle

Mared Eastwood - Cyngor Sir y Fflint

Billy Mullin - Cyngor Sir y Fflint

| |
|---|
| Martin Gerard White - Cyngor Sir y Fflint<br><br>Veronica Gay – Cyngor Sir y Fflint<br><br>Dave Hughes - Cyngor Sir y Fflint<br><br>B Evans - Cyngor Sir y Fflint<br><br>David Williams - Cyngor Sir y Fflint<br><br>Joel Stephen James - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br><br>Cindy Hinds - Cyngor Sir y Fflint<br><br>Kate Libby Jones - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br><br>Louise Brown -  Cyngor Sir Fynwy<br><br>Patrick Heesom - Cyngor Sir y Fflint<br><br>Ian Dunbar - Cyngor Sir y Fflint<br><br>Arnold Woolley - Cyngor Sir y Fflint |

**Un o Asiantaethau'r  Llywodraeth / Cyrff Eraill yn y Sector Cyhoeddus**

| | |
|---|---|
| Cyngor Tref Bae Colwyn<br><br>Cyngor Cymuned Llaneurgain<br><br>Cyngor Cymuned Pentref Llaneirwg<br><br>Cyngor Cymuned Pentyrch<br><br>Cyngor Cymuned Coed-llai<br><br>Cyngor Cymuned Pen-y-ffordd<br><br>Cyngor Tref Saltney<br><br>Cyngor Cymuned Gwernymynydd<br><br>Cyngor Cymuned Kinnerton Uchaf | Cyngor Cymuned Pont-y-clun<br><br>Cyngor Cymuned Northop Hall<br><br>Hefin David AM/AC<br><br>Janet Finch-Saunders AM/AC<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br><br>Cyngor Cymuned Radyr a Phentre-poeth<br><br>Abergavenny Town Council<br><br>Cyngor Cymuned Yr Hob |

**Awdurdod Cynllunio Lleol**

| | |
|---|---|
| Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br><br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful<br><br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br><br>Cyngor Bwrdeisdref Sirol Torfaen Cyngor | Cyngor Castell-nedd Port Talbot<br><br>Cyngor Bro Morgannwg<br><br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br><br>Cyngor Abertawe<br><br>Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd |

| | |
|---|---|
| Sir Fynwy<br>Cyngor Sir Ceredigion<br>Cyngor Sir Gâr<br>Cyngor Sir Penfro<br>Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | a Mon<br>Cyngor Caerdydd<br>Cyngor Sir y Fflint<br>Cyngor Bwrdeistref Wrecsam |

**Eraill**

| |
|---|
| Evan Owen - Bywyd Cymru<br>Engr. Klaus Armstrong-Braun - Envirowatch.Eu |

**Cyrff proffesiynol / Grwpiau Buddiant**

| | |
|---|---|
| Ffederasiwn y Meistri Adeiladu Cymru<br>Home Builders Federation<br>Cartrefi Cymunedol Cymru | CLA Cymru<br>RTPI Cymru |

**Y Sector Gwirfoddol**

| | |
|---|---|
| Raglan Action Group<br>North West Cardiff Group<br>YDCW Monmouthshire<br>Abergavenny Development Forum<br>ACCH (Abermorddu, Caergwrle, Cefn Y Bedd & Hope) | Parc y Llys Sychnant Residents Group<br>Abergavenny and District Civic Society<br>Ramblers Cymru Flintshire |

**Yn ymateb fel unigolyn**

| | |
|---|---|
| Paul Cone | Emma Barnaby |
| Steven Pritchard | Michael Barnaby |
| Ally Bevan | Nikki Jones |
| Arthur Wyn Owen | Marylyn Sechi |
| Kevan Huxley | Michael Bosley |
| Colin Hughes | Carl Brancher |
| Vivian Davies | Sarah Taylor |
| Philip Evans | Clifford Hewitt |
| Colin Halliwell | Hazel Hyett |
| Alastair Deane | David Mellor |
| Trudy Millard | M. Maguire |
| Rhian Davies | Jennifer Mellor |
| Mike Jones-Pritchard | Philippa Milward |
| Andy McCaw | Judith Pritchard |
| Jean Wilson | Andrew & Kirsty Johns |
| Ann Roberts | Toni Davies |
| Anthony Elston | Thomas Benson |
| H Owen | Sheelagh Benson |
| Dawn Thomas | Keith Richards |
| Tim Burke | Margaret & Michael Giles |
| Elaine Parker | James Francis |
| Josephine Mcgartland | Charly Cook |
| Timothy James | Anthony R Toon |
| Darren Parker | Catherine Ann Longworth |
| Elaine Parker | Antonita Wood |
| Sally Round | David Evans |
| Robert Parker | Sean Le Tissier |
| David Evans | John Golledge |
| Peter Webb | Kathy Jones |
| Trevor Jones | Howard Jones |

| | |
|---|---|
| Stuart Pringle | Mary Brooks |
| Rhys Hughes | Chris Bithell |
| Philip Spencer Brelsford | Harold Marshall |
| Stephen Roberts | Jayne Garland |
| Lynn Gazal | Nicola Attewell |
| M Barbrook | Claire Jones |
| Rachel Hurdley | Susan Jones |
| Deborah Whitby | Gareth Jones |
| Anthony Lane | Dean Olsen |
| Guy Thorndike | Ruth Parker |
| Robert Masters | Christian McCale |
| Jools Jones | Steven M Lewis |
| Nick Bradshaw | Ian Smith |
| Lee Moule | Ffion George |
| Samuel McDermott | Susan Morgan |
| Lisa Webb | Jeff Jones |
| Eva Roberts | Stephen Kent |
| John Owen | Steven Barrett |
| Anna Richards | Nina E Rogers |
| Sandra Barrett | Janet Axworthy |
| Arnold Brown | Diane Hughes |
| Jack Barrett | John Rooney |
| Anne Meikle | Arfon Hughes |
| Emma Barrett | Martin Thorn |
| Kaide Robinson | Hilary Jones |
| Sam Bergmanski | Dr Mary Barkham |
| Paul Hilton | Lynne Drake |
| Byron Rees | Peter Walmsley |
| Peter and Rona Davies | Wendy Reynolds |
| Dennis Roy Parry | Kathleen Littler |
| Hilda James | Gary Willetts |

| | |
|---|---|
| Richard G Waters<br><br>Stuart Richard Rogers | Malcolm Worth |

Gofynnodd 227 o'r ymatebwyr am gael bod yn ddienw.

Os hoffech gael copïau o'r ymatebion, gallwch gysylltu â'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio yn Llywodraeth Cymru.